# PECYN Dathlu DARLLEN

## CAM CYNNYDD 3 a 4



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Trawsgwricwlaidd

# Gweithgareddau trawsgwricwlaidd

Dyma awgrymiadau am weithgareddau trawsgwricwlaidd ar gyfer disgyblion o wahanol oedrannau, i ysgogi eu mwynhad o lyfrau a darllen er pleser a'u hymateb i amrywiaeth o lenyddiaeth.

## Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

### Gweithgareddau llafar a gwrando

- Gweithio mewn grwpiau bach i greu datganiadau ar sail 'Mae darllen yn bwysig/llesol oherwydd …' cyn trafod a graddio'r datganiadau ar ffurf tasg graddio diemwnt.
- Creu rhestr o bum llyfr i fynd gyda nhw i ynys bellennig, gan esbonio'u rhesymau.
- Cynnal 'Brwydr Lyfrau' fel dosbarth – disgyblion i grynhoi a gwerthu eu hoff lyfr ar lafar mewn munud, cyn i weddill y dosbarth gael y cyfle i bleidleisio dros un o'r llyfrau, yn seiliedig ar y micro-gyflwyniadau.
- Cynnal sesiwn reolaidd er mwyn i ddisgyblion rannu hoff lyfr, awdur, bardd neu ddarlunydd â gweddill y dosbarth.
- Cynnal cwis yn seiliedig ar lyfrau a/neu awduron. Gallai disgyblion hŷn greu cwestiynau a chynnal cwis i ddisgyblion iau.
- Cyflwyno eu hoff awdur, llyfr neu gymeriad mewn cyflwyniad 2/3/5 munud o hyd ac ateb cwestiynau'r dosbarth am y cyflwyniad.
- Creu cwestiynau i'w gofyn i gymeriad o lyfr mewn cyfweliad dychmygol – gweithgaredd 'Y Gadair Goch'.
- Sgriptio a recordio podlediad ar thema dathlu darllen neu ddathlu llyfrau.

### Gweithgareddau ysgrifennu

- Ceisio crynhoi eu hoff lyfr mewn 20, 50 neu 100 gair ar nodyn *Post-it* neu gerdyn post.
- Creu poster o gynghorion (*top tips*) mwynhau darllen neu ddarllen er pleser i'w arddangos yn y dosbarth neu'r ysgol.
- Creu addunedau darllen i'w harddangos yn y dosbarth, e.e. 'Yr wythnos hon … / Y mis hwn … / Eleni hoffwn i ddarllen …'
- Creu rhestr pump uchaf yn seiliedig ar lyfrau a darllen, e.e. pum hoff lyfr, hoff gymeriad, hoff awdur neu fardd, hoff ddarlunydd, hoff linell o lyfr, ac ati.
- Meddwl am restr o gwestiynau addas i'w gofyn i'w hoff awdur, bardd neu ddarlunydd.
- Ysgrifennu cofnod dyddiadur neu blog o safbwynt cymeriad o lyfr, neu gyfres o gofnodion o safbwyntiau gwahanol gymeriadau.








- Ysgrifennu adolygiad o'u hoff lyfr ar gyfer disgyblion yr un oed â nhw (gweler adnodd Dewch-i-son-am-lyfrau.pdf (llyfrau.cymru), templed Adolygiad-Review.pdf (llyfrau.cymru) ar gyfer disgyblion iau a thempled micro-adolygiad). Yna, beth am i ddisgyblion rannu eu hadolygiadau ar gwales.com neu wefan Sôn am Lyfra?
- Creu stori'n seiliedig ar gymeriadau o wahanol lyfrau yn cwrdd â'i gilydd mewn sefyllfa ddychmygol.
- Defnyddio llinell gyntaf stori enwog fel sbardun i greu stori newydd sbon.
- Disgyblion hŷn i ysgrifennu straeon, neu greu llyfrau llun a gair neu gomic, ar gyfer disgyblion iau.
- Cynnal cystadleuaeth ysgrifennu straeon micro (dim mwy na 50 neu 100 o eiriau).
- Ysgrifennu cerdd neu rap arbennig i ddathlu darllen a llyfrau (gallai cerdd acrostig gyda'r geiriau DARLLEN neu LLYFRAU fod yn opsiwn haws i ddisgyblion iau).
- Creu cymeriad llenyddol newydd sbon ac ysgrifennu disgrifiad neu dynnu llun ohono/ohoni.
- Creu chwilair neu groesair yn seiliedig ar hoff awdur neu hoff lyfr.
- Creu taflen Adnabod Awdur/Bardd/Darlunydd neu bamffled gwybodaeth (gweler taflenni Adnabod Awdur Cyngor Llyfrau Cymru am syniadau.
- Creu cylchgrawn neu ffan-sîn dosbarth yn seiliedig ar ddarllen a llyfrau.
- Dewis hoff ddyfyniadau o lyfrau neu gerddi a'u harddangos mewn swigod siarad yn y dosbarth.
- Creu gwahoddiad ar gyfer un o weithgareddau dathlu darllen yr ysgol.
- Ysgrifennu llythyr neu e-bost at hoff awdur, bardd neu ddarlunydd.

## Gemau iaith

- Chwarae'r gêm *Post-its* mewn parau neu grwpiau bach yn seiliedig ar gymeriadau o lyfrau. (Gosod *post-it* ar y talcen, a'r plant i ddyfalu'r cymeriad.)
- Chwarae gêm o Stori Gron (*Consequences*) gan ddefnyddio llinell agoriadol llyfr fel sbardun.
- Chwarae fersiwn o *Guess Who* yn seiliedig ar gymeriadau o lyfrau.
- Chwarae gêm o *Top Trumps* – gall disgyblion ddefnyddio cardiau parod neu greu eu cardiau eu hunain yn seiliedig ar gymeriadau o'u dewis (e.e. cymeriadau o nofel ddosbarth y tymor). Gweler y templedi Cardiau Brwydro-Top Trumps.
- Chwarae gêm 'Dyfalu teitl y llyfr', gan ddefnyddio ystumiau yn lle geiriau fel cliwiau. Llenwi bocs esgidiau â chliwiau er mwyn annog pobl eraill i ddyfalu teitl y llyfr, neu enw'r cymeriad neu'r awdur.
- Chwarae bingo gan ddefnyddio teitlau llyfrau, lluniau o gloriau neu enwau awduron.
- Chwarae gêm o *Pictionary* yn seiliedig ar deitlau llyfrau neu enwau awduron.
- Casglu lluniau o ffrindiau, cyfoedion, athrawon neu staff yn cuddio'u hwynebau â hoff lyfr o'u plentyndod, neu lyfr sy'n dweud rhywbeth amdanyn nhw, a dyfalu pwy yw pwy.
- Casglu lluniau o silffoedd llyfrau gwahanol ddisgyblion neu aelodau o staff a cheisio dyfalu pwy yw perchennog pob silff lyfrau.
- Creu cwis paru'r broliant â theitl neu glawr llyfr.





**Digwyddiadau arbennig ym myd llyfrau**

Cofiwch am **Gynllun Cysgodi Gwobrau Tir na n-Og** ar gyfer darllenwyr CA2 a CA3. Bwriad y cynllun cysgodi yw codi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc o deitlau rhestr fer Gwobrau Tir na n-Og wrth gynnig cyfle i fwynhau darllen a thrafod y llyfrau â'u cyfoedion.

Ceir elfen newydd i'r cynllun hefyd, sef Barn y Darllenwyr – tlws arbennig sy'n cael ei ddewis gan blant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y cynllun cysgodi. Gall ysgolion, llyfrgelloedd a grwpiau darllen eraill gofrestru i gymryd rhan yn y cynllun a bod yn feirniaid answyddogol i ddewis enillydd o blith y rhestr fer, gan ddefnyddio'r pecyn cysgodi arbennig. Mae'r pecyn cysgodi'n cynnwys crynodeb o'r llyfrau, sylwadau gan y beirniaid swyddogol, gwybodaeth am yr awduron, gemau a chardiau pleidleisio. Yn ystod seremoni wobrwyo Tir na n-Og, bydd cyfle i ddisgyblion gyflwyno'r wobr 'Dewis y Darllenwyr'. Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan Cyngor Llyfrau Cymru neu cysylltwch â plant@llyfrau.cymru.

Cofiwch hefyd am **Gornest Lyfrau/ BookSlam** Cyngor Llyfrau Cymru, sef her ddarllen flynyddol hwyliog sy'n sbarduno darllen er pleser i blant CA2. Mae Gornest Lyfrau yn annog disgyblion i drafod y llyfrau maen nhw'n eu darllen a pharatoi fideo creadigol, fel grŵp neu ddosbarth, yn seiliedig ar un o'r llyfrau sydd ar y rhestr ddarllen. Mae Gornest Lyfrau yn agored i ysgolion cyfrwng Cymraeg, trawsieithol a chyfrwng Saesneg (BookSlam) ac yn addas i flynyddoedd 3-6, fel dosbarthiadau cyfan neu grwpiau darllen.

Mae'n her ddarllen hwyliog sy'n:

- annog plant i wirioni ar ddarllen a mwynhau llyfrau da
- meithrin agweddau cadarnhaol a hirdymor tuag at ddarllen
- cefnogi datblygiad llythrennedd emosiynol a meithrin sgiliau trafod, cyfathrebu a dadansoddi
- cyd-fynd â gofynion y Cwricwlwm trwy gynnig amrywiaeth o weithgareddau i unigolion a grwpiau ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad
- hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o lyfrau, awduron a darlunwyr
- dathlu safon eithriadol ym maes llenyddiaeth plant.

Am ragor o wybodaeth, gweler Gornest Lyfrau | Cyngor Llyfrau Cymru.

## Celfyddydau Mynegiannol

- Dylunio rhai o'r canlynol:
    - clawr llyfr (efelychu clawr presennol neu ddylunio clawr newydd sbon)
    - tocyn llyfr
    - bathodynnau dathlu darllen
    - llyfrnod
    - label perchnogaeth arbennig ar gyfer hoff lyfr
    - bynting dathlu darllen
    - clawr ar gyfer Blwyddlyfr Plant/Pobl Ifanc blynyddol Cyngor Llyfrau Cymru
    - crys-T yn seiliedig ar hoff lyfr
- Cynllunio a chreu gwisgoedd â deunyddiau ail-law neu ddeunyddiau wedi eu hailgylchu, a chreu sioe ffasiynau yn seiliedig ar gymeriadau o lyfrau neu thema lenyddol.
- Addurno cacennau neu fisgedi yn seiliedig ar thema lenyddol.
- Addurno gwrthrych (e.e. wy, taten, rholyn papur tŷ bach, carreg ffrwythau a llysiau) fel cymeriad o lyfr.
- Troi hoff lyfr neu stori yn stribed comic neu nofel graffig ddigidol.
- Chwarae rôl eu hoff gymeriad o lyfr, neu actio golygfa/golygfeydd o lyfr.
- Creu lluniau llonydd i gyfleu golygfeydd, digwyddiadau neu emosiynau yn seiliedig ar lyfr penodol.
- Creu dawns i gyfleu golygfa neu gyfres o olygfeydd o lyfr.
- Creu hysbyseb llafar neu raglun (*trailer*) yn hysbysebu hoff lyfr.



- Datblygu rhestr chwarae (*playlist*) ddychmygol o ganeuon a fyddai'n addas i'w hoff gymeriad neu gymeriad penodol o lyfr.
- Cyfansoddi a pherfformio darn o gerddoriaeth i gyd-fynd â llyfr o'u dewis, neu â hoff olygfa o lyfr.
- Creu rhestr chwarae o ganeuon i wrando arnyn nhw wrth ddarllen, gyda'r pwyslais ar ddarllen er pleser.

### Mathemateg a Rhifedd

- Casglu, cyflwyno a dadansoddi data am hoff lyfrau, awduron, beirdd neu ddarlunwyr disgyblion y dosbarth neu'r ysgol gyfan.
- Creu cyllideb ar gyfer prynu testunau darllen addas i lyfrgell adnoddau'r ysgol, neu i ardaloedd darllen penodol yn yr ysgol neu'r dosbarth.
- Cyllido taith i ymweld â man â chysylltiad llenyddol yn yr ardal leol (e.e. gwasg argraffu, llyfrgell, siop lyfrau, cartref awdur neu fardd enwog).

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg (a Chynhwysedd Digidol)

- Creu hysbyseb llafar neu raglun digidol i hysbysebu hoff lyfr.
- Creu poster digidol i'w arddangos yn y dosbarth neu'r ysgol i annog disgyblion i ddarllen ('Mae darllen yn bwysig/llesol oherwydd ...')
- Creu rhestr – '20 o resymau pam y dylen ni ddarllen' – a chreu poster i'w harddangos.
- Meddwl am sloganau addas i annog pobl eraill i ddarllen a chreu posteri digidol ohonyn nhw.
- Creu animeiddiad digidol yn seiliedig ar olygfa neu olygfeydd o lyfr.
- Creu adolygiadau llafar o lyfrau a'u ffilmio.
- Troi hoff lyfr neu stori yn stribed comic neu nofel graffig ddigidol.
- Creu llyfryn digidol o adolygiadau llyfrau wedi'u hysgrifennu gan ddisgyblion y dosbarth.
- Creu hysbyseb ddigidol i hysbysebu un o ddigwyddiadau dathlu darllen yr ysgol.
- Pobi ac addurno cacennau neu fisgedi yn seiliedig ar thema lenyddol.
- Creu bwydlen neu ddeiet dychmygol a fyddai'n addas i gymeriad neu gymeriadau o lyfr.
- Creu llyfr ryseitiau yn seiliedig ar fwydydd o wahanol lyfrau a mynd ati i goginio ambell rysáit.

### Y Dyniaethau

- Ymchwilio a chyflwyno gwybodaeth am gyfnod hanesyddol sy'n gysylltiedig â llyfr, awdur neu fardd penodol, neu ddigwyddiad o bwys ym maes llenyddiaeth. Am restr o lyfrau ffuglen a ffeithiol cyfredol yn ymwneud â hanes Cymru, gweler: 10-Stori-o-Hanes-Cymru.pdf (llyfrau.cymru)
- Creu casgliad o lyfrau sy'n ymwneud â thema amgylcheddol gyfoes, e.e. newid hinsawdd, neu'n ymwneud â gwlad neu wledydd penodol. Creu cyflwyniad neu fideo yn seiliedig ar yr wybodaeth a geir yn y llyfrau i'w rannu â gweddill y dosbarth.





## Iechyd a Lles

- Sicrhau cyfleoedd rheolaidd i oedolyn ddarllen ar goedd i ddisgyblion o bob oed, er pleser yn anad dim, er mwyn rhoi'r cyfle iddyn nhw ymlacio wrth wrando ar stori dda.
- Cofiwch am restrau llyfrau Darllen yn Well Cyngor Llyfrau Cymru ar gyfer plant a'r arddegau. Cofiwch hefyd am restr llyfrau a gweithgareddau cynllun **Iechyd Da**, ac am restr llyfrau'r Empathi Lab, sef llyfrau addas ar gyfer trafod iechyd meddwl ac empathi â disgyblion o bob oed.
- Cadw dyddiadur darllen, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut mae gwahanol lyfrau yn gwneud iddyn nhw deimlo.
- Cynnal gweithgareddau llafar ac ysgrifenedig sy'n ennyn empathi a thrafodaeth am bob math o emosiynau, e.e. y disgyblion i roi eu hunain yn esgidiau cymeriad o lyfr (Sut maen nhw'n teimlo? Beth ddylen nhw ei wneud?).

